


# Gwobr Cyfarwyddwr Padlfwrdd ar Draed Lefel 1 CGCP (BCAB)

## Manyleb y Cymhwyster

# Cynnwys

Rhagarweiniad ........ 3
Ynglŷn â'r Cymhwyster ........ 5
Cyflwyniad i'r Cymhwyster Gwobr Cyfarwyddwr Padlfwrdd ar Draed Lefel 1 CDCP (BCAB) . 7
Crynodeb ........ 7
Gofynion Mynediad Ymgeiswyr ........ 7
Rhaglen Ddysgu a Chyflwyno ........ 8
Asesu ........ 10
Cyfleusterau ac Adnoddau ........ 11
Y Gweithlu ........ 13
Tynnu'r Cymhwyster yn ôl ........ 13
Trefnu ........ 14
Gwobr Cyfarwyddwr Padlfwrdd ar Draed Lefel 1 CDCP (BCAB) ........ 15
Meini Prawf Cwrs ........ 15
Deilliannau Dysgu a'r Meini Prawf Asesu ........ 17

**Gwobr Cyfarwyddwr Padlfwrdd ar Draed Lefel 1 CDCP (BCAB)**

**Manyleb y Cymhwyster**

## Rhagarweiniad

Mae'n bleser gennym gyflwyno Manyleb y Cymhwyster Gwobr Cyfarwyddwr Padlfwrdd ar Draed Lefel 1 CDCP (BCAB)

## Ynglŷn â Chorff Dyfarnu Canŵio Prydain

Caiff Corff Dyfarnu Canŵio Prydain ei gydnabod a'i reoleiddio gan y Swyddfa Rheoleiddio Cymwysterau ac Arholiadau (Ofqual), y Cyngor Cwricwlwm, Arholiadau ac Asesu (CCEA), a Chymwysterau Cymru. Fel Corff Dyfarnu, rydym yn cynnig cymwysterau chwaraeon padlo galwedigaethol o lefelau 1 i 4. Mae Corff Dyfarnu Canŵio Prydain yn sicrhau bod ymgeiswyr yn cael eu hasesu'n deg ac yn gywir a bod y modd y caiff y cymhwyster ei gynllunio a'i gyflwyno yn gadarn ac yn addas at y diben.

Caiff ein cymwysterau a dyfarniadau eu monitro a'u gwerthuso'n rheolaidd a gwneir newidiadau iddynt fel y bo'n briodol er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i ddiwallu anghenion ymgeiswyr a'r Diwydiant Chwaraeon Padlo.

## Athroniaeth Addysgol Corff Dyfarnu Canŵio Prydain

Mae Corff Dyfarnu Canŵio Prydain yn credu mewn ymagwedd a arweinir gan gyfranogwr wrth greu a galluogi profiad y bydd pobl yn ei fwynhau, yn dysgu ohono ac yn datblygu ohono drwy chwaraeon padlo. Mae'r cwrs Gwobr Cyfarwyddwr Padlfwrdd ar Draed Lefel 1 CDCP (BCAC) wedi cael ei lunio i gefnogi cyfarwyddwyr i ddarparu sesiynau PAD (SUP) diogel, diddorol sy'n grymuso ac sy'n hwyl, gan roi'r padlwr wrth wraidd y broses; gan hefyd feithrin ymdeimlad cymunedol ymysg padlwyr a chefnogi'r agweddau cymdeithasol cynhenid ar y gamp. Drwy'r ymagwedd hon, rydym yn gobeithio y bydd y padlwyr yn llwyddo ac yn dathlu'r llwyddiant hwnnw (a hynny drwy ganolbwyntio ar y daith, ac nid ar ben y daith).

Dylai profiad y cyfarwyddwr drwy'r llwybr cymhwyster fod yn ddiogel, yn ddiddorol ac yn hwyl hefyd; a dylai'r cyfarwyddwr allu llywio ei ddysgu a'i ddatblygu ei hun. Dylai ein tiwtoriaid gyflwyno'r rhaglen drwy ddefnyddio dull cynorthwyol a grymusol i feithrin angerdd byw am PAD (SUP) yn ogystal â hyfforddi. Bodlonir anghenion unigolion drwy feithrin cymuned padlo a datblygu dealltwriaeth o'r amgylchedd y mae'r padlfyrddio ar draed yn cael ei gynnal ynddo a pharch tuag ato.

## Ynglŷn â'r Cymhwyster

| | |
|---|---|
| **Teitl y Cymhwyster:** | Gwobr Cyfarwyddwr Padlfwrdd ar Draed Lefel 1 CDCP (BCAB) |
| **QAN:** | 610/1551/9 |
| **Lefel:** | 1 |
| **Cyfanswm Amser y Cymhwyster:** | 100 awr |
| **Oriau Dysgu dan Arweiniad: (GLH):** | 15 awr |
| **Maes Pwnc y Sector:** | 08.1 Chwaraeon a Hamdden |
| **Dyddiad Cychwyn Gweithredol:** | 1af Rhagfyr 2022 |
| **Dyddiad Adolygu:** | 1af Rhagfyr 2026 |

## Cydnabyddiaeth

Gweithiodd Corff Dyfarnu Canŵio Prydain mewn partneriaeth ag ystod eang o arbenigwyr wrth ddatblygu'r cymhwyster hwn. Roedd y rhain yn cynnwys canolfannau cyflwyno, cyflogwyr, ymgeiswyr presennol a phosibl ac arbenigwyr addysgol a chwaraeon padlo.

## Hawlfraint

Mae'r Fanyleb y Cymhwyster hwn yn hawlfraint Corff Dyfarnu Canŵio Prydain. Cedwir pob hawl. Ni chaniateir ailgynhyrchu'r cyhoeddiad hwn, ei storio ar unrhyw ffurf neu ffordd yn electronig, yn fecanyddol, ar ffurf ffilm neu fel arall heb ganiatâd ymlaen llaw gan berchennog yr hawlfraint. Caiff deunydd wedi'i ddiweddaru a'i uwchraddio ei ddiogelu ar yr un sail.

## Cyhoeddiad

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y cyhoeddiad hwn yn wir ac yn gywir ar adeg cyhoeddi. Mae cynnyrch a gwasanaethau Corff Dyfarnu Canŵio

Prydain yn destun datblygiad a gwelliant parhaus a chedwir yr hawl i newid y cynnyrch a'r gwasanaethau o bryd i'w gilydd. Ni all Corff Dyfarnu Canŵio Prydain dderbyn unrhyw atebolrwydd am golled neu niwed sy'n codi o ddefnyddio'r wybodaeth yn y cyhoeddiad hwn.

Gorff Dyfarnu Canŵio Prydain
Canolfan Chwaraeon Dŵr Cenedlaethol
Adbolton Lane
Holme Pierrepont
Nottingham NG12 2LU

Ffôn: 0300 0119 500
E-bost: enquiries@britishcanoeingawarding.org.uk
Gwefan: www.britishcanoeingawarding.org.uk

## Cyflwyniad i’r Cymhwyster Gwobr Cyfarwyddwr Padlfwrdd ar Draed Lefel 1 CDCP (BCAB)

### Crynodeb

Mae’r cymhwyster Gwobr Padlfwrdd ar Draed Lefel 1 CDCP (BCAB) ar gyfer cyfarwyddwyr a fydd yn cynnal sesiynau rhagflas/cychwynnol PAD (SUP) o fewn systemau rheoli diogelwch clybiau, canolfannau neu sefydliadau eraill mewn:

Prif rôl y Cyfarwyddwr Padlfwrdd ar Draed Lefel 1 CDCP (BCAB) yw cyflwyno sesiynau rhagflas/cychwynnol diogel a phleserus yn seiliedig ar anghenion a dyheadau’r grŵp.

Mae'r cwrs yn cynnwys cyfuniad o ddysgu theori ac ymarferol a fydd yn caniatáu i'r ymgeisydd gymhwyso ei wybodaeth mewn lleoliadau ymarferol sydd wedi'u cyfyngu i amgylcheddau Dŵr Cysgodol Iawn.

Mae'r Wobr Cyfarwyddwr Padlfwrdd ar Draed CDCP (BCAB) Lefel 1 yn caniatáu ar gyfer twf ac ymgysylltiad personol ac yn paratoi dysgwyr i ddatblygu eu gwybodaeth ymhellach trwy symud ymlaen i Wobr Cyfarwyddwr Chwaraeon Padlo Lefel 1 CDCP (BCAB), Gwobr Hyfforddwr Lefel 3 CDCP (BCAB) a Gwobr Hyfforddwr Perfformiad Lefel 4 CDCP (BCAB) os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Mae Gwobr Cyfarwyddwr Padlfwrdd at Draed CDCP (BCAB) Lefel 1 yn caniatáu i gyfarwyddwyr gael gwaith mewn canolfan aml-weithgaredd neu gefnogi rôl yn y gweithle yn y diwydiant awyr agored neu ar sail wirfoddol mewn lleoliad clwb.

Mae’r cymhwyster Gwobr Cyfarwyddwr Padlfwrdd ar Draed CDCP (BCAB) ar Gofrestr Ofqual o Gymwysterau Rheoledig ar Lefel 1.

### Gofynion Mynediad Ymgeiswyr

Mae’r gofynion mynediad i ymgeiswyr fel a ganlyn:

- Aelodaeth Lawn y Gymdeithas Genedlaethol;
- Cofrestriad â’r Ganolfan Gyflwyno;
- Cymhwysedd Padlo Personol ac Achub (gweler isod);

CopyrightBCAB/01082022BCABLevel1StandUpPaddleboardInstructorAwardQualificationSpecificationWelshV1-3Nov24

- 14 oed neu hŷn (gweler isod).

### Cymhwysedd Padlo Personol ac Achub Hanfodol

Cyn mynychu cwrs Gwobr Cyfarwyddwr Padlfwrdd ar Draed Lefel 1 CDCP (BCAB), disgwylir i'r ymgeiswyr fod wedi datblygu sgiliau padlo personol ac achub ar eu PAD (SUP) drwy hyfforddiant mewn canolfan neu'n annibynnol, ymarfer a  hyfforddi. Bydd gallu yn cael ei asesu yn ystod y cwrs Gwobr Cyfarwyddwr Padlfwrddar Draed  Lefel 1 CDCP (BCAB).

### Diogelu

Gall ymgeiswyr dan 18 oed gymryd rhan yn y cymhwyster hwn. Rhaid i bob canolfan, tiwtor a staff cysylltiedig weithredu mesurau diogelu priodol a rhoi sylw teilwng i'w cyfrifoldebau uwch a chyfreithiol.

Dylai darparwyr wirio ei addasrwydd ar gyfer unrhyw un dan 18 oed.

## Rhaglen Ddysgu a Chyflwyno

### Y Ganolfan Gyflwyno

Dim ond trwy Ganolfan Gyflwyno Corff Dyfarnu Canŵio Prydain y gellir cyflwyno'r cwrs Gwobr Cyfarwyddwr Padlfwrdd ar Draed  Lefel 1 CDCP (BCAB).

### Recriwtio

Mae Tiwtoriaid y Ganolfan Gyflwyno'n gyfrifol am recriwtio dysgwyr a rhaid iddynt sicrhau bod dysgwyr yn cael y wybodaeth a'r cyngor priodol ynglŷn â gofynion mynediad a'r cymhwyster.

### Dysgu Blaenorol wedi'i Achredu

Mae'r Ganolfan Gyflwyno'n gyfrifol am weithredu polisi Dysgu Blaenorol wedi'i Achredu Corff Dyfarnu Canŵio Prydain. Mae'n helpu'r ymgeiswyr hynny y mae ganddynt eisoes y wybodaeth, y sgiliau a'r galluoedd o brofiadau blaenorol i fynd yn syth i'r asesiad, heb gwblhau'r elfen hyfforddi.

## Sefydlu

Rhaid i Diwtoriaid y Ganolfan Gyflwyno gynnal sesiwn sefydlu i ymgeiswyr sy'n egluro gofynion y cwrs ac unrhyw ofynion iechyd a diogelwch.

## Hyd y Rhaglen

Caiff y cwrs Gwobr Cyfarwyddwr Padlfwrdd ar Draed Lefel 1 CDCP (BCAB) ei gyflwyno dros o leiaf dau ddiwrnod ac mae'n cynnwys o leiaf 15 awr o amser cyswllt addysgu/dysgu. Rhaid cwblhau cyrsiau modiwlaidd o fewn chwe wythnos.

Cyfanswm Amser y Cymhwyster yw 100 awr. Dyma amcangyfrif o'r cyfanswm o oriau y bydd dysgwr yn debygol o'i dreulio yn rhesymol yn paratoi ac yn mynychu'r cwrs. Mae hyn yn cynnwys yr amser a dreulir yn datblygu'r sgiliau personol ac achub rhagofynnol.

## Rhaglen Ddysgu

Mae'r Canolfannau Cyflwyno'n gyfrifol am sicrhau bod cyrsiau Gwobr Cyfarwyddwr Padlfwrdd ar Draed Lefel 1 CDCP (BCAB) yn dilyn rhaglen a chynlluniau gwersi Corff Dyfarnu Canŵio Prydain (neu am awdurdodi caniatâd arbennig i weithredu y tu allan i'r arfer hwn).

## Sicrhau Ansawdd

Mae gan CDCP (BCAB) gyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau ansawdd y Wobr Cyfarwyddwr Padlfwrdd ar Draed Lefel 1 CDCP (BCAB). Mae prosesau rheoli a gwerthuso uwch yn eu lle i sicrhau lefel briodol o graffu o Safonau Asesu Canolfannau Cyflwyno, gan gynnwys:

- Adolygiadau Polisi'r Ganolfan Gyflwyno;
- Archwiliadau'r Ganolfan Gyflwyno;
- Samplo'r Ganolfan Gyflwyno;
- Samplo CDCP (BCAB) o benderfyniadau Asesu;
- Ymweliadau Byr Rhybudd CDCP (BCAB)
- Gweithdai Safoni CDCP (BCAB) ar gyfer Canolfannau Cyflwyno.

CopyrightBCAB/01082022BCABLevel1StandUpPaddleboardInstructorAwardQualificationSpecificationWelshV1-3Nov24

## Asesu

### Safonau Gofynnol

Erbyn diwedd y cwrs hwn, disgwylir i ymgeiswyr fod wedi dangos gwybodaeth a sgiliau fel y nodir yn y Meini Prawf Asesu.

Mae Corff Dyfarnu Canŵio Prydain yn cynhyrchu adnoddau i gefnogi'r asesiad o'r cymhwyster Gwobr Cyfarwyddwr Padlfwrdd ar Draed Lefel 1 CDCP (BCAB). Mae hyn yn cynnwys y **'Pecyn Datblygu Dysgwr Cyfarwyddwr Padlfwrdd ar Draed Lefel 1 CDCP (BCAB)'** a **'Chanllawiau Asesu Cyfarwyddwr Padlfwrdd ar Draed Lefel 1 CDCP (BCAB)'**. Caiff yr adnoddau hyn eu cyflwyno i'r Ganolfan Gyflwyno gan Gorff Dyfarnu Canŵio Prydain; rhaid eu defnyddio. Er y gellir addasu fformat yr adnoddau hyn, ni ellir newid y tasgau eu hunain.

Nid yw'r cymhwyster yn cael ei raddio.

### Tasgau Asesu Heb eu Cwblhau

Os nad yw ymgeisydd yn cwblhau elfen sydd ei hangen ar gyfer yr ardystiad erbyn diwedd y cwrs asesu, rhaid iddo gael ei gefnogi gan diwtor/tiwtoriaid y cwrs a fydd yn llunio cynllun gweithredu.

Bydd y cynllun gweithredu yn rhoi canllawiau ar gyfleoedd asesu posibl yn y dyfodol.

Nid oes cyfyngiad i nifer y weithiau y gall yr ymgeisydd gael ei asesu; er bod gan diwtoriaid ac aseswyr ddyletswydd i sicrhau bod yr ymgeisydd yn derbyn cyngor cadarn i gefnogi ei ddatblygiad a'i waith paratoi ar gyfer asesiadau llwyddiannus; dylai methu'r asesiadau nifer o weithiau ddigwydd yn anaml iawn.

### Gwrthdaro Buddiannau

Rhaid i'r Ganolfan Gyflwyno reoli gwrthdaro buddiannau'n effeithiol. Ni chaiff aseswyr asesu teulu na ffrindiau agos. Dylai aseswyr osgoi, lle bo'n ymarferol, asesu cydweithwyr neu gyflogedigion.

**Polisïau Ategol**

Mae'r Canolfannau Cyflwyno'n gyfrifol am weithredu'r polisïau ategol canlynol:

- Apeliadau;
- Cyfleoedd Cyfartal;
- Ystyriaeth Arbennig;
- Addasiadau Rhesymol;
- Dysgu Blaenorol wedi'i Achredu;
- Camymarfer a Chamweinyddu.

Mae Corff Dyfarnu Canŵio Prydain yn cynnig cymorth lle bo angen.

## Cyfleusterau ac Adnoddau

Mae defnyddio cyfleusterau ac adnoddau priodol yn elfen hanfodol o ddarparu cwrs o safon:

- rhaid darparu amgylchedd gweithredol priodol a diogel ar gyfer holl elfennau'r cwrs, gan roi sylw i ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch perthnasol;
- rhaid gwneud ymgeiswyr yn ymwybodol o'r disgwyliadau er mwyn sicrhau arferion diogel ac amgylchedd dysgu a/neu asesu effeithiol;
- rhaid i ymgeiswyr wisgo/defnyddio dillad a chyfarpar addas ar gyfer yr holl weithgareddau ymarferol, fel y nodir yn yr asesiad risg penodol ac yn unol â'r arferion gorau cyfredol;
- rhaid gweithredu asesiadau risg a strategaethau rheoli risg priodol drwy gydol yr holl weithgareddau;
- rhaid i'r adnoddau corfforol fod o safon y diwydiant;
- rhaid i'r holl staff fod yn gwbl gyfarwydd â'r arferion gorau a'r safonau presennol sy'n berthnasol i'r Wobr Cyfarwyddwr Padlfwrdd ar Draed Lefel 1 CDCP (BCAB);
- mae angen i drefnwyr y cwrs a thiwtoriaid ystyried yn ofalus addasrwydd y lleoliad sydd wedi'i ddewis er mwyn sicrhau y gellir cynnal hyfforddiant/asesiad cadarn;

- rhaid gwneud trefniadau priodol a'u cyfathrebu'n glir i'r ymgeiswyr;
- rhaid bod gan y lleoliadau amodau o ran pa fan, golau a thymheredd sy'n addas ar gyfer anghenion yr ymgeiswyr;
- rhaid i'r lleoliadau a ddefnyddir fod yn hygyrch i'r holl ymgeiswyr (yn unol â'r ddeddfwriaeth briodol)

**Lleoliad Ymarferol**

Mae angen i'r cwrs Gwobr Cyfarwyddwr Padlfwrdd ar Draed Lefel 1 CDCP (BCAB) gael mynediad hawdd a chyflym i o leiaf un lleoliad **Dŵr Cysgodol Iawn** (gweler diffiniad drosodd) lle mae'n bosibl ymgymryd â thaith fer syml.

15 munud yw'r cyfnod hiraf yr ystyrir yn dderbyniol o ran teithio mewn cerbyd o'r ystafell ddosbarth i'r lleoliad dŵr. Mae'n fanteisiol defnyddio lleoliadau lle nad oes angen llwytho a dadlwytho'r byrddau ar gyfer pob sesiwn.

**Cyfleusterau Dan Do**

Rhaid cael ystafell ddosbarth â chadeiriau/byrddau a defnydd o adnoddau clyweledol. Mae angen y safle dan do hwn am tua 60-90 munud ar ddechrau a diwedd bob dydd er mwyn cynnal yr elfennau hyn o'r rhaglen ddysgu.

**Adnoddau Ychwanegol**

Bydd angen bod gan ymgeiswyr fynediad at fyrddau, padlau a chyfarpar cysylltiedig, i gymryd rhan yn gyfforddus ac yn ddiogel yn y sesiynau ymarferol yn y dŵr.

Bydd angen amrywiaeth o adnoddau i chwarae gemau a chefnogi gweithgareddau ymarferol, ynghyd ag amrywiaeth o adnoddau dysgu ar lefel briodol i gefnogi ymgeiswyr gyda gwahanol feysydd y maes llafur. Dylai'r adnoddau dysgu hyn fod ar gael mewn amrywiaeth o fformatau, gan gynnwys llyfrau chwaraeon penodol, cyfeirlyfrau, llawlyfrau, llyfrau gwaith, gwefannau technegol a modiwlau e-ddysgu.

Mae rhaglen y cwrs yn cynnwys cyfleoedd i ymgeiswyr roi cynnig ar gyflwyno elfennau o sesiynau rhagflas/cychwynnol PAD (SUP). Hwylusir hyn gan amlaf drwy waith rhwng cyfoedion yn hytrach na defnyddio unigolion sy'n cychwyn o'r newydd.

**Diffiniad o Ddŵr Cysgodol Iawn**

Mae Diffiniad o Ddŵr Cysgodol Iawn yn cynnwys:

- camlesi tawel gyda mynediad hawdd i mewn ac allan o'r glannau;
- llynnoedd bach, nad ydynt yn ddigon mawr, ac nad oes iddynt fannau glanio anodd, i broblemau godi os bydd newidiadau sydyn yn yr amodau;
- safleoedd penodol ar afonydd tawel sy'n llifo'n araf.

Mae'r diffiniad yn awgrymu amodau arferol pan na fydd y tywydd yn ei hun yn debygol o achosi problemau. Rhoddir cyngor i fod yn ofalus pan fydd tymheredd y dŵr yn isel. Ni ddylai'r sawl sy'n padlo fod yn bellach na 50 medr o'r glannau ar unrhyw adeg.

## Y Gweithlu

Mae'r Ganolfan Gyflwyno yn gyfrifol am recriwtio tiwtoriaid a dilyswyr mewnol profiadol a chymwys.

Mae '**Gofynion Tiwtor Cyfarwyddwr Padlfwrdd ar Draed Lefel 1**' Corff Dyfarnu Canŵio Prydain (**BCAB)** yn rhoi canllawiau i'r Ganolfan Gyflwyno ar recriwtio Tiwtoriaid Cyfarwyddwr Padlfwrdd ar Draed. Mae hefyd yn amlinellu'r gofynion diweddaru, cymedroli a safoni parhaus.

## Tynnu'r Cymhwyster yn ôl

Mae Corff Dyfarnu Canŵio Prydain wedi ymrwymo i barhau i gynnig cymhwyster Gwobr Cyfarwyddwr Padlfwrdd ar Draed Lefel 1 CDCP (BCAB) tan ei ddyddiad adolygu a fwriedir. Er yn annhebygol, os bydd Corff Dyfarnu Canŵio Prydain yn dymuno tynnu'r cymhwyster hwn yn ôl cyn y dyddiad hwn, rhoddir rhybudd o chwe mis i'r Canolfannau Cyflwyno er mwyn galluogi'r dysgwyr i gwblhau eu cymhwyster.

## Trefnu

Wrth ennill y cymhwyster Gwobr Cyfarwyddwr Padlfwrdd ar Draed Lefel 1 CDCP (BCAB), bydd ymgeisydd wedi cyflawni'r safonau cydnabyddedig isaf sydd eu hangen i gynnal sesiynau rhagflas/cychwynnol PAD (SUP) mewn Dŵr Cysgodol Iawn o fewn systemau rheoli clybiau, canolfannau neu sefydliadau eraill.

Dyfarniad lefel mynediad yw'r cymhwyster Gwobr Cyfarwyddwr Padlfwrdd ar Draed Lefel 1 CDCP (BCAB) a'i ddiben yw paratoi cyfarwyddwyr ar gyfer eu rôl cyfarwyddo cyntaf. Mae'n bwysig nodi bod y cyfarwyddwr yn cael tystysgrif ar ôl cwblhau'r cwrs. Ar yr adeg hon, mae'n bosibl nad oes ganddo unrhyw **brofiad o gyfarwyddo** ac nid yw ei sgiliau 'cyfarwyddo' wedi cael eu hasesu. Byddant wedi cael asesiad o'u sgiliau personol ac achub; a byddant wedi dangos rhinweddau penodol wrth gyflawni'r cwrs. Byddant mewn sefyllfa dda i ddechrau ennill profiad mewn amgylchedd gwaith a gynorthwyir. Y darparwr fydd yn trefnu pryd mae'n credu y gall yr unigolyn gynnal ei sesiynau yn unigol.  Disgwylir i'r cymhwyster gael ei ddefnyddio ar y cyd â systemau rheoli diogelwch trefnwyr arferol.

Ar ôl meddu ar y cymhwyster a chael ychydig o brofiad yn y maes, byddwn yn disgwyl y gellir defnyddio Cyfarwyddwyr Padlfwrdd ar Draed Lefel 1 CDCP (BCAB) i gynnal sesiynau rhagflas/cychwynnol PAD (SUP) eu hunain.

### Safonau Sylfaenol

Mae'n gyfrifoldeb ar y trefnydd i sicrhau bod cyfarwyddwyr o oedran addas a bod ganddynt hyfforddiant cymorth cyntaf a diogelu addas i'w rôl.

Mae Corff Dyfarnu Canŵio Prydain yn argymell y canlynol fel y safonau sylfaenol priodol ar gyfer hyfforddwyr:

- hyfforddiant cymorth cyntaf cyfredol a pherthnasol;
- yswiriant atebolrwydd;
- hyfforddiant diogelu cyfredol a pherthnasol;
- ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus;
- cadw sgiliau personol, sgiliau achub/diogelwch, sgiliau arwain/hyfforddi yn gyfredol.

Noder na ellir ystyried person ifanc yn gyfrifol am arwain yn ôl y gyfraith tan iddynt droi'n 18 oed.

### Cymwysterau a Dyfarniadau Pellach

Ar ôl i ymgeiswyr ennill ychydig o brofiad, neu os ydynt yn dymuno cymryd rolau gwahanol, efallai y byddent yn dewis gweithio tuag at gymwysterau eraill Corff Dyfarnu Canŵio Prydain, dyfarniadau neu fodiwlau hyfforddi. Mae yna ystod eang o hyfforddiant, cymwysterau a dyfarniadau sy'n addas ar gyfer nifer o wahanol ddyheadau. Gallwch gael rhagor o fanylion ynghylch y cyrsiau hyn ar wefan Corff Dyfarnu Canŵio Prydain.

## Gwobr Cyfarwyddwr Padlfwrdd ar Draed Lefel 1 CDCP (BCAB)

## Meini Prawf Cwrs

### Ystod Amgylcheddol

Mae'r cwrs/cymhwyster Gwobr Cyfarwyddwr Padlfwrdd ar Draed  Lefel 1 CDCP (BCAB) wedi'i fframio gan sesiynau rhagflas/cychwynnol PAD (SUP) sy'n cael eu cyflwyno mewn amodau **Dŵr Cysgodol Iawn**. Gweler diffiniad.

### Grwpiau Poblogaeth Dysgwyr

Caiff y cymhwyster/cwrs ei fframio gan gyflwyno sesiynau rhagflas/cychwynnol PAD (SUP) i bobl nad ydynt wedi padlo o'r blaen. Fel arfer, mae'n cynnwys grwpiau o 6-14 o gyfranogwyr:

- plant a phobl ifanc yn rhan o brofiad addysgol ehangach;
- pobl fel rhan o brofiad hamdden, cymdeithasol, gweithgaredd neu wyliau;
- pobl sydd am 'roi cynnig' ar y gamp.

Bydd cyrsiau hyfforddi yn edrych ar ystod nodweddiadol o anghenion dysgwyr. Fodd bynnag, os bydd rôl y Cyfarwyddwr Padlfwrdd ar Draed  Lefel 1 CDCP (BCAB) yn gofyn iddo ddiwallu anghenion corfforol neu ddysgu unigol, bydd angen iddo

ymgymryd â hyfforddiant pellach gan y trefnydd (neu ddarparwr hyfforddiant arbenigol arall).

### Cynnwys Technegol a Thactegol

Mae'r sesiynau rhagflas/cychwynnol PAD (SUP) yn canolbwyntio'n bennaf ar **'mynd i badlo'** yn hytrach na **'dysgu i PAD (SUP)'**. Bydd y cwrs Gwobr Cyfarwyddwr Padlfwrdd ar Draed  Lefel 1 CDCP (BCAB) yn helpu ymgeiswyr i gyflwyno rhai technegau sylfaenol i gyfranogwyr (symud ymlaen, troi a dod i stop) er mwyn iddynt gymryd rhan mewn sesiwn PAD (SUP) a bydd yn cynnwys rhai awgrymiadau defnyddio a datrysiadau cyflym i heriau cyffredin.

## Deilliannau Dysgu a’r Meini Prawf Asesu

### Uned 1: Cyflwyno Sesiynau Rhagflas/Cychwynnol Chwaraeon Padlo

**Deilliant Dysgu 1: Safonau Proffesiynol**

Erbyn diwedd y cwrs, disgwylir i’r dysgwr ddangos y safonau proffesiynol sydd eu hangen ar Gyfarwyddwr Padlfwrdd ar Draed Lefel 1 CDCP (BCAB).

<table>
<tr><th colspan="2">Meini Prawf Asesu</th><th>Cynnwys Allweddol</th><th>Dull Asesu</th></tr>
<tr><td colspan="2">Bydd y dysgwr yn dangos ei fod wedi cyflawni’r amcan dysgu hwn drwy:</td><td>Y dysgwr:</td><td></td></tr>
<tr><td>1.1</td><td>cynnal enw da’r proffesiwn a’r gamp;</td><td>Fe ymddangosodd:<br>● yn lân, wedi’i wisgo’n addas;<br>● ar amser;<br>● yn ddigynnwrf;<br>● i fod yn dilyn codau ymddygiad perthnasol;<br>● yn dangos esiampl dda.</td><td rowspan="2">Asesiad Ffurfiannol, gan gynnwys:<br>● Hunanasesu.<br>● Asesu cyfoedion.<br>● Aseswr yn arsylwi a thrafodaeth broffesiynol.</td></tr>
<tr><td>1.2</td><td>gweithio yn rhan o dîm i hwyluso gweithgaredd chwaraeon padlo;</td><td>Wedi gweithio yn rhan o dîm i baratoi sesiynau ymarferol a thacluso ar eu hôl.<br>Wedi dangos agwedd broffesiynol o ran sut mae’n trin eraill (yn gwrtais, yn barod i helpu, yn gefnogol, yn sylwgar, â pharch ac yn deg);<br>Wedi ennyn parch a ffydd gan eraill.<br>Yn gyffredinol hwyliog.</td></tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Wedi cyfathrebu'n glir ac yn effeithiol; | |
| 1.3 | ddewis ymddygiad sy'n osgoi achosi effaith negyddol ar yr amgylchedd a defnyddwyr eraill; | Wedi lleihau cymaint â phosib/osgoi sbwriel ac erydiad.<br>Wedi osgoi tarfu ar  fywyd gwyllt a defnyddwyr eraill drwy gynnal agwedd sensitif wrth ddewis safle, defnydd o ardaloedd glannau a rennir a lefelau sŵn.<br>Wedi dilyn codau ymddygiad perthnasol. | |
| 1.4 | gymryd rhan weithredol yn ei ddysgu ei hun i ddatblygu ei sgiliau a rhinweddau proffesiynol ei hun. | Wedi cymryd rhan yn weithredol ym mhob agwedd ar y cwrs Gwobr Cyfarwyddwr Padlfwrdd ar Draed Lefel 1 CDCP (BCAB).<br>Wedi dangos y cymhelliant a'r chwilfrydedd i barhau i ddatblygu'n bersonol y tu hwnt i'r cwrs Gwobr Cyfarwyddwr Padlfwrdd ar Draed Lefel 1 CDCP (BCAB). | |

**Deilliant Dysgu 2: Sgiliau Padlo Personol**

Erbyn diwedd y cwrs, disgwylir i'r dysgwr allu dangos ei fod wedi defnyddio sgiliau padlo personol i gefnogi ei ddyletswyddau fel cyfarwyddwr.

<table>
<tr><th colspan="2">Meini Prawf Asesu</th><th>Cynnwys Allweddol</th><th>Dull Asesu</th></tr>
<tr><td colspan="2">Bydd y dysgwr yn dangos ei fod wedi cyflawni'r amcan dysgu hwn drwy:</td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>2.1</td><td>ddewis (a pharatoi) ei fwrdd;</td><td rowspan="6">Mae'r cyfarwyddwr wedi dangos sgiliau personol effeithiol ac effeithlon mewn amgylchedd Dŵr Cysgodol Iawn sy'n cefnogi ei allu i:<br>● hwyluso'r gwaith o gyflwyno sesiynau pleserus;<br>● manteisio'n llawn ar y cyfleoedd a gynigir gan yr amgylchedd dŵr cysgodol iawn;<br>● cefnogi diogelwch cyfranogwyr a'i hun;<br>● cyflawni achubiadau;<br>● ysbrydoli a magu hyder yn eraill.</td><td>Aseswr yn arsylwi</td></tr>
<tr><td>2.2</td><td>defnyddio technegau codi a chario diogel;</td><td>Aseswr yn arsylwi</td></tr>
<tr><td>2.3</td><td>lansio a glanio'n effeithiol;</td><td>Aseswr yn arsylwi</td></tr>
<tr><td>2.4</td><td>symud a rheoli ei gwch yn ddiogel ac yn effeithiol;</td><td>Aseswr yn arsylwi</td></tr>
<tr><td>2.5</td><td>rheoli ei hun o fewn fframweithiau diogelwch a ddewiswyd ei hun;</td><td>Aseswr yn arsylwi ac yn holi cwestiynau</td></tr>
<tr><td>2.6</td><td>dangos esiampl dda i'w dilyn.</td><td>Aseswr yn arsylwi</td></tr>
</table>

**Deilliant Dysgu 3: Sgiliau Achub**

Erbyn diwedd y cwrs, disgwylir i’r dysgwr allu defnyddio sgiliau padlo personol i fynd i’r afael ag achubiadau’n effeithiol.

<table>
<tr><th colspan="2">Meini Prawf Asesu</th><th>Cynnwys Allweddol</th><th>Dull Asesu</th></tr>
<tr><td colspan="2">Bydd y dysgwr yn dangos ei fod wedi cyflawni’r amcan dysgu hwn drwy:</td><td>Y dysgwr:</td><td></td></tr>
<tr><td>3.1</td><td>achub padlfyrddiwr ar draed a’i gyfarpar sydd wedi cwympo i ddŵr dwfn</td><td rowspan="5">● dewis techneg achub addas;<br>● wedi dilyn y protocol hunan-tîm-dioddefwr-cyfarpar;<br>● wedi rhoi cyfarwyddiadau clir a chywir;<br>● wedi achub yr anafedig yn effeithiol (a’i gyfarpar) o fewn y cyfyngiadau amser penodol;<br>● wedi cymryd rhagofalon diogelwch personol priodol;<br>● wedi ymddwyn yn bwyllog ac mewn rheolaeth o’r sefyllfa.</td><td>Aseswr yn arsylwi</td></tr>
<tr><td>3.2</td><td>achub nofiwr i’r glannau gan ddefnyddio dull achub wyneb i lawr ar y bwrdd;</td><td>Aseswr yn arsylwi</td></tr>
<tr><td>3.3</td><td>achub padlfyrddiwr ar draed sydd wedi’i analluogi i’r glannau;</td><td>Aseswr yn arsylwi</td></tr>
<tr><td>3.4</td><td>sefydlogi  padlfyrddiwr anymwybodol yn y dŵr;</td><td>Aseswr yn arsylwi</td></tr>
<tr><td>3.5</td><td>mynd yn ôl ar y bwrdd yn effeithiol.</td><td>Aseswr yn arsylwi</td></tr>
</table>

**Deilliannau Ychwanegol y Rhaglen**

Yn ogystal â'r deilliannau dysgu a'r meini prawf asesu a restrir uchod, nodir yr amcanion hirdymor canlynol hefyd. Mae'r deilliannau hyn yn elfen bwysig o raglen y cwrs. Fodd bynnag, ni ddisgwylir i'r dysgu fod yn amlwg tan fod y sgiliau wedi cael eu hymarfer a'u gwreiddio mewn profiad gwaith gwirioneddol. Bydd y rhain yn cael eu cefnogi gan Asesiad ar gyfer Dysgu. Bydd gwybodaeth am yr hyn y mae'r ymgeisydd yn ei wybod, ei ddeall ac yn gallu ei wneud yn cael ei defnyddio gan y tiwtor a'r dysgwr i bennu ar ba gam dysgu y mae'r dysgwr a sut i gyflawni ei nodau dysgu. Defnyddir technegau holi, hunanasesu'r dysgwr ac adborth gan y tiwtor drwy gydol y cwrs i gefnogi'r broses ddysgu.

| Deilliannau Dysgu Tymor Hir | Cynnwys Allweddol |
|---|---|
| Deall sut i feithrin perthnasau cadarnhaol a chefnogol â chyfranogwyr yn gyflym. | Dysgu a defnyddio enwau unigolion.<br>Bod yn gwrtais, yn gefnogol, yn sylwgar, yn galonogol, yn garedig, yn ofalgar, yn barchus, yn ddiolchgar, yn gyfeillgar, yn hawdd mynd ato ac yn deg.<br>Helpu i groesawu'r bobl a gwneud iddynt deimlo'n gartrefol.<br>Helpu aelodau'r grŵp i gyd-dynnu'n dda, gan annog ymdeimlad o 'dîm'.<br>Materion diogelu. |
| Cyfathrebu'n glir ac yn effeithiol gan ddefnyddio sgiliau cyfathrebu llafar a heb eiriau gyda chyfranogwyr ac eraill. | Rhoi cyfarwyddiadau clir a byr ar lafar. Lefel sain, tôn, iaith a safle addas. Yr hyn i'w gynnwys/peidio â'i gynnwys.<br>Defnyddio cyfathrebu heb eiriau; ystumiau, signalau, gwenu, iaith y corff, arddangosiadau.<br>Defnyddio technegau cwestiynu, gwrando a thrafod.<br>Dulliau i sicrhau dealltwriaeth.<br>Cyfathrebu drwy sianelau gweledol, sain, cinesthetig. |

| | |
|---|---|
| Deall sut i ysgogi ac ysbrydoli cyfranogwyr. | Pwysigrwydd dangos angerdd a brwdfrydedd tuag at chwaraeon padlo, y gweithgaredd, y dasg dan sylw ac at yr hyn y gall eraill ei gyflawni, neu'r hyn y maent wedi'i gyflawni.<br>Deall yr hyn sy'n ysgogi pobl i gymryd rhan, e.e. rhoi cynnig ar rywbeth newydd; boddhad o fod yn yr awyr agored; treulio amser gyda ffrindiau/teulu; teimlo eu bod wedi cyflawni rhywbeth.<br>Sut i ddeall lefelau ysgogi cyfranogwr; dangosyddion allweddol i dalu sylw iddynt.<br>Dewis gweithgareddau ysgogol a heriol addas.<br>Dewis dull addas; cydbwyso rheolaeth a dewis. |
| Cael ei ddefnyddio i gyflwyno sesiynau rhagflas/cychwynnol. | Pa fath o gymorth i'w ddisgwyl gan ddarparwyr.<br>Pwysigrwydd hyfforddiant diogelu a chymorth cyntaf.<br>Gorchwyl Cyfarwyddwr Padlfwrdd ar Draed Lefel 1 CDCP (BCAB); amcanion nodweddiadol sesiynau rhagflas/cychwynnol. |
| Deall sut i gynnal diogelwch y cyfranogwyr. | Asesu risg cyn ac yn ystod y sesiynau.<br>Nodi peryglon a chamau gweithredu effeithiol i'w hosgoi.<br>Rhoi cyfarwyddiadau diogelwch.<br>Deall peryglon arferol a geir o fewn gorchwyl y dyfarniad.<br>Yr offer a ddefnyddir yn cefnogi arferion diogel.<br>Yn defnyddio ymarferion cynhesu corfforol a seicolegol yn ôl yr angen.<br>Yn dewis gweithgareddau a dull arwain sy'n addas i'r tywydd/amodau dŵr.<br>Yn cefnogi'r grŵp i gael digon o orffwys, bwyd a dŵr.<br>Yn dilyn gweithdrefnau trefniadol (e.e. asesiad risg, gweithdrefnau gweithredu, manylion sy'n benodol i'r lleoliad/offer/gweithgaredd).<br>Yn defnyddio ac yn hyrwyddo technegau diogel o godi a chario ar bob adeg (e.e. wrth lansio, glanio, yn ystod achubiadau, llwytho ac ati).<br>Strategaethau rheoli grŵp. |

| | |
|---|---|
| | Yr hyn i'w wneud os bydd angen i bawb adael y dŵr. |
| Dewis offer addas i'r cyfranogwyr. | Mathau a hyd y padlau.<br>Mathau a meintiau PAD (SUP).<br>Tenynnau.<br>Offer Diogelu Personol (PPE).<br>Dillad i gadw'n gyfforddus. |
| Deall sgiliau chwaraeon padlo sylfaenol. | Sgiliau Chwaraeon Padlo Sylfaenol:<br>● ystwythder, cydbwysedd, cydsymud;<br>● osgo;<br>● cysylltiad;<br>● trosi pŵer;<br>● teimlad.<br>Sgiliau cychwynnol:<br>● lansio a glanio;<br>● symud ymlaen:<br>● troi;<br>● dod i stop;<br>● cydweithio, cyfathrebu, hyder.<br>Nodi camgymeriadau technegol cyffredin, awgrymiadau gorau a datrysiadau cyflym:<br>● helpu pobl i symud mewn llinell syth;<br>● helpu pobl sy'n nerfus/sigledig;<br>● cywiro camgymeriadau o ran defnyddio'r badl |

| | |
|---|---|
| Deall sut i helpu cyfranogwyr i ddysgu rhai sgiliau chwaraeon padlo sylfaenol. | ● creu amgylchedd dysgu cadarnhaol;<br>● addasu cyfyngiadau tasgau drwy osod tasgau;<br>● datblygu sgiliau penderfynu'r dysgwr drwy gemau; 'gemau ag amcanion';<br>● defnyddio adborth;<br>● defnyddio technegau cwestiynu a thrafod;<br>● defnyddio dysgu rhyngbersonol;<br>● defnyddio gweithgareddau datrys problemau;<br>● monitro dysgu a lefelau mwynhad. |
| Defnyddio barn a'r gallu i wneud penderfyniadau'n effeithiol i gyflwyno (ac addasu) sesiynau sy'n ddiogel ac yn hwyl; | Bod yn wyliadwrus a chadw llygad ar ymateb aelodau'r grŵp i'r gweithgaredd; yr amgylchedd cymdeithasol, yr amgylchedd ffisegol a'r dull o arwain.<br>Addasu lefel y rheolaeth a chymorth yn ôl y sefyllfa.<br>Paru lefel yr her i lefel aelodau'r grŵp.<br>Addasu cynlluniau o ganlyniad i ddigwyddiadau nas rhagwelwyd.<br>Ymateb yn briodol pan geir deilliannau nas dymunwyd. |
| Deall gwahanol elfennau'r sesiynau rhagflas/cychwynnol. | Gofynion paratoi sesiwn:<br>● casglu/defnyddio gwybodaeth am y grŵp, y lleoliad a'r amodau;<br>● paratoi'r offer sydd ei angen. |
| | Sut i baratoi grŵp yn effeithiol ar gyfer sesiynau rhagflas/cychwynnol PAD (SUP):<br>● cyfarfod a chyfarch y grŵp;<br>● dosbarthu offer a mynd ar y dŵr. |
| | Gweithgareddau y gellir eu defnyddio i annog cyfranogwyr mewn sesiynau rhagflas/cychwynnol PAD (SUP);<br>● gweithgareddau cynhesu i gefnogi amcanion y sesiwn;<br>● gweithgareddau ymgyfarwyddo cychwynnol;<br>● gemau a gweithgareddau i gefnogi'r dysgu; |

| | |
|---|---|
| | ● defnyddio teithiau bychain i gefnogi'r dysgu ac annog antur. |
| | Sut i ddod â'r sesiwn rhagflas/cychwynnol i ben:<br>● dod â'r sesiwn i ben;<br>● cefnogi aelodau'r grŵp wrth iddynt baratoi i adael;<br>● tacluso. |